

Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a  
Materion Gwledig  
Mike Hedges AC,

27 Ionawr 2020

## **Y WYBODAETH DDIWEDDARAF GAN BWYLLGOR SBWRIEL A GWASTRAFF PLASTIG SENEDD IEUENCTID CYMRU**

**Annwyl Mike Hedges AC, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a  
Materion Gwledig,**

Fel y gwyddoch, y llynedd, cyfarfu Senedd Ieuenctid Cymru (y Senedd Ieuenctid) yn Siambr y Senedd am y tro cyntaf. Yno, trafododd Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru (ASICau) y 18 pwnc gwahanol a gafodd eu nodi'n rhai pwysig i bobl ifanc ledled Cymru. Dyma'r tri phrif fater y penderfynodd y Senedd Ieuenctid ganolbwyntio arnynt:

1. Cymorth Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl
2. Sbwriel a Gwastraff Plastig
3. Sgiliau Bywyd yn y Cwricwlwm

Wedi dewis y tri maes blaenoriaeth hyn, penderfynodd yr ASICau y dylent ffurfio pwyllgorau pwnc. Rhan bwysig o waith pob pwyllgor yw ymgynghori â phobl ifanc eraill, sefydliadau perthnasol, grwpiau ieuenctid a staff i helpu'r pwyllgor i gael dealltwriaeth fanylach o'r materion, ac i helpu i lywio argymhellion allweddol y Senedd Ieuenctid.

Rydym ni yn y Pwyllgor Sbwriel a Gwastraff Plastig eisoes wedi ymgynghori â sefydliadau sy'n arwain y sector, fel Wrap Cymru, Syrffwyr yn erbyn Carthion, ac Iechyd Da. Ein bwriad yw cynnal ymgyrch ymwybyddiaeth i wella dealltwriaeth pobl ifanc o'r mater pwysig hwn, ac yn ystod y broses ymgynghori â phobl ifanc (mewn digwyddiadau a thrwy arolwg ar-lein) i ddarganfod pa gamau, yn eu barn nhw, y dylid eu cymryd yn y dyfodol.

Dyma rai o ddyddiadau allweddol Pwyllgor Sbwriel a Gwastraff Plastig y Senedd Ieuentid yn 2020:

Mis	Gweithgarwch
Ionawr/Chwefror	<b>Cyfarfodydd rhanbarthol</b> i bob ASIC yn y pedwar rhanbarth i gynllunio gweithgaredd ymwybyddiaeth ac ymgynghori
Mawrth 23 a 30	<b>Digwyddiadau rhanbarthol</b> yn cynnwys ASICau a phobl ifanc eraill ledled Cymru. Bydd Pwyllgor Sbwriel a Gwastraff Plastig y Senedd Ieuentid yn lansio ein hymgynghoriad yn y digwyddiadau hyn, lle byddwn yn achub ar y cyfle i gael trafodaethau â phobl ifanc eraill, gan gynnwys aelodau o eco-gynghorau ysgolion, i nodi arfer da a meysydd i'w gwella. Drwy'r ymgyrch ymwybyddiaeth ehangach a'r ymgynghoriad, bydd ein Pwyllgor hefyd yn ymgysylltu ag ystod amrywiol o bobl ifanc ledled Cymru.
Mawrth	Bydd Staff Senedd Ieuentid ac ASICau yn cyflwyno sesiynau ymwybyddiaeth mewn ysgolion, colegau a sefydliadau ieuentid.
Gorffennaf	Cau'r ymgynghoriad a dadansoddi'r canlyniadau.
Medi	Rhannu'r canlyniadau a chyhoeddi adroddiad ar ein casgliadau
Tachwedd	Penwythnos preswyl olaf (Cyfarfod Llawn olaf 13.11.2020)

Byddem yn falch iawn pe byddech chi a/neu aelodau eraill o'r Pwyllgor yn ystyried ymuno â ni yn ein digwyddiadau rhanbarthol ym mis Mawrth ac ar gyfer Cyfarfod Llawn olaf Senedd Ieuentid Cymru ar 13 Tachwedd 2020 yn y Siambr, Caerdydd (manyllion isod). Byddwn hefyd yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am ein gwaith, ac i wahodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig a'r Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol i'r digwyddiadau hyn.

Fel Pwyllgor, byddem yn croesawu'r cyfle i weithio gyda'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar y mater hwn, a byddem yn hapus i drafod syniadau a chyfleoedd ar gyfer gweithio gyda'n gilydd.

Cynhelir y digwyddiadau ar y dyddiadau isod:

Dyddiad ac amser	Lleoliad
Dydd Llun 23 Mawrth 10:00 – 14:30	Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
Dydd Llun 30 Mawrth 10:00 – 14:30	Prifysgol Bangor

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am unrhyw beth yn y llythyr hwn, mae croeso ichi gysylltu â [helo@seneddieuentid.cymru](mailto:helo@seneddieuentid.cymru).

Diolch am eich cefnogaeth.

Yn gywir,

Senedd Ieuentid Cymru